

Teitl	Diweddariad Asesiad Llesiant	
Rhif yr Eitem	7	
Dyddiad y Cyfarfod	4 Mai 2021	
I ystyried a sylwi ar y materion canlynol: 1. Bod y BGC yn cymeradwyo'r Fframwaith Methodoleg ar y Cyd ar gyfer cynnal yr Asesiadau o Lesiant Lleol. 2. Bod pob aelod-sefydliad BGC yn enwebu ‘Arweinydd Data’ i gynorthwyo wrth gasglu a dadansoddi data ar gyfer yr asesiad. Gall fod yr un arweinydd ar draws y tri BGC. 3. Bod pob aelod-sefydliad BGC yn enwebu ‘Arweinydd Ymgysylltu’ i gynorthwyo i ddatblygu’r cam hwn o’r Asesiad. Gall fod yr un arweinydd ar draws y tri BGC. 4. Bod y BGC yn cymeradwyo cyflwyno cais i Rwydwaith Cyd-gynhyrchu ar gyfer Cymru am eu cefnogaeth i weithgaredd ymgysylltu yn ystod y rownd hon o asesiadau.		
I Draffod	A oes angen penderfyniad?	Oes
Cynigwyd gan		
Kate Harrop, Tîm Cynorthwyo BGC		

Well-being Assessment Update

Background

Members are aware that the PSB is required to undertake a Well-being Assessment (WBA) to inform its Well-being Plan. The next WBA needs to be completed by May 2022.

A report was presented at the last PSB meeting on the 23 March regarding the Assessment of Local Well-being. The following was agreed:

1. The PSB endorsed the approach to working in partnership with regional colleagues in undertaking the Assessment of Local Well-being, dovetailing where possible with the process for the Population Needs Assessment.
2. For a Joint Methodology Framework to be developed between Ceredigion, Carmarthenshire and Pembrokeshire. (Whilst using a joint methodology each PSB will still publish their own individual assessments).
3. The PSB granted permission to use the regional grant for the recruitment of a Project Coordinator to assist with the preparation and production of the Assessment of Local Well-being. Ceredigion County Council will lead on managing the Project Co-ordinator post on behalf of the three PSBs.

Current position

Since the last PSB meeting, preparations and discussions with colleagues and partners amongst the three PSB areas have been continuing.

The PSB/RPB network comprising of PSB leads from the three counties, representatives from Hywel Dda University Health Board (HDdUHB) and the RPB, continue to meet on a monthly basis. The invitation was extended to Powys PSB, who welcomed the opportunity to participate in the preparatory work on the assessment.

A Regional Working Group was established for the purpose of developing a Joint Methodology Framework, which is included as an attachment under Appendix 1 for consideration by the PSB. The methodology outlines the collective approach to undertaking the assessments of Local Well-being across the three PSB areas. It sets out how we will work together across the four stages (data review, analysis, engagement and next steps), the different types of groups we will be engaging with and the types of engagement techniques that will be used.

PSB member organisations have a key role to play in facilitating the production of the assessment, particularly through the provision of local data, taking part in engagement and monitoring the progress of the project through to completion.

- We are requesting that each PSB member organisation nominates a **‘data lead’** to assist in the data gathering and analysis stage of the assessment. An organisation may decide to nominate the same data lead across the three PSBs. The first task for this group will be to contribute to the initial Situation Analysis through the provision of local data. This information will highlight *‘what we know now’* about Carmarthenshire

and will be used as the basis for the engagement campaign which will be held between May and July 2021.

- The **Situation Analysis** will be circulated to all PSB members prior to commencing engagement with the public, to seek views and comments on the appropriateness of the information provided.
- A **Regional Engagement Framework** is being developed which will outline the approach to conducting engagement and consultation on the assessment. PSB members are also asked to nominate an '**engagement lead**' for the regional working group to progress this area of work beginning mid-May. An organisation may decide to nominate the same data lead across the three PSBs.
- We have recently received a letter from **Co-production Network for Wales** inviting interested PSBs to apply for support in relation to engagement activity on the well-being assessments (see Appendix 2). The Co-production Network has secured 5 years of funding from the National Lottery Community Fund to work with 3 PSBs or a cluster of PSBs on the implementation of co-production in their assessments. Regionally partners are keen to pursue this offer and recommend submitting an application as a cluster of three PSBs – or four if Powys wish to also benefit from this support.
- We are considering the different options for the **community areas** geography on which to base the analysis. A community area discussion paper will be brought to the next PSB meeting.

The bid for the regional PSB Support funding submitted to Welsh Government for a Project Coordinator to assist with the preparation and production of the Assessment of Local Well-being has been successful (formal notification is awaited).

Work also continues to progress with the Digital Information System, developed by Writemedia on behalf of the three PSB's. This system will provide a central repository for all PSB members, stakeholders and citizens to the ongoing recording and analysis relating to well-being. It aims to bridge the five-year gap between the publication of the assessments, to ensure that information on well-being is continuously utilised as and when new evidence is made available. The system will undergo testing at the end of April and is aiming to be live by June 2021.

Recommendations:

1. That the PSB endorses the Joint Methodology Framework for undertaking the Assessments of Local Well-being.
2. That each PSB member organisation nominates a 'Data Lead' to assist in the data gathering and analysis for the assessment. This may be the same lead across the three PSBs.

3. That each PSB member organisation nominates an 'Engagement Lead' to assist in developing this phase of the Assessment. This may be the same lead across the three PSBs.
4. That the PSB endorses the submission of an application to Co-production Network for Wales for their support in engagement activity during this round of assessments.

Appendix 1 – Joint Methodology Framework for the Assessment of Local Well-being.

Appendix 2 - Co-production Network for Wales letter to PSBs

Methodoleg ar y cyd

Joint Methodology



Penfroakeshire Public Services Board
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro



Awdur / Author: Gweithgor Rhanbarthol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro

Dyddiad cymeradwywyd / Date approved: Heb ei gymeradwyo eto

Dyddiad cyhoeddi / Publication date: Heb ei gyhoeddi eto


Cynnwys

Crynodeb o'r Fethodoleg ar y Cyd	1
Cyflwyniad	2
Cefndir	2-5
Y Fethodoleg ar y Cyd	5-13
<i>Adolygiad Data (Dadansoddiad o'r Sefyllfa)</i>	5-8
<i>Dadansoddiad Manwl (Dadansoddiad o'r Ymateb)</i>	8-9
<i>Ymgysylltu ac Ymgynghori</i>	9-12
<i>Yr Adroddiad Terfynol a'r Camau Nesaf (Dadansoddiad Crynodol)</i>	12-13
Monitro a Chyflawni	14
Casgliad	15
Atodiad 1 – Llinell Amser yr Asesiad o Lesiant Lleol	16

Asesiad o Lesiant Lleol

CRYNODEB METHODOLEG AR Y CYD


Strwythur y grwpiau gweithio a fydd yn llunio'r Asesiad o Lesiant Lleol.



Dull Cyfnodau Bywyd - defnyddiwyd gan y BGC i ymgymryd â'r Asesiad o Lesiant Lleol.




Ymrwymiad ac Ymgynghoriad bydd prif yrrwr yr Asesiad o Lesiant Lleol a fydd yn cynnwys amrywiaeth o grwpiau.



Mae'r Adolygiad o Ddata a'r Dadansoddiad Manwl yn ffurfio rhan o'r Asesiad o Lesiant Lleol. Mae'r Dadansoddiad Manwl hefyd yn bwydo'n uniongyrchol mewn i'r Cynllun Llesiant Lleol.



Y Pedwar Cam tuag at gyflawni'r Asesiad o Lesiant Lleol.



MAWRTH 2022

CYHOEDDI'R ASESIAD O LESIANT LLEOL TERFYNOL

Fframwaith Methodoleg ar y Cyd yr Asesiad o Lesiant Lleol

Cyflwyniad


Mae'r fethodoleg hon yn amlinellu'r dull gweithredu ar y cyd o gynnal Asesiadau o Lesiant Lleol ar draws ardaloedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro yn ystod 2021/22. Fe'i datblygwyd mewn partneriaeth rhwng sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Pwrpas y fethodoleg yw arwain y tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus trwy gyflawni eu Hasesiad o Lesiant Lleol mewn ymgynghoriad â phartneriaid, rhanddeiliaid a dinasyddion. Mae'n nodi'r dull gweithredu safonedig i gynnal casglu'r data, dadansoddi'r data, yr ymgysylltu a'r ymgynghori ar lesiant ar draws y tair ardal, ynghyd â'r amserlenni ar gyfer eu cwblhau erbyn Mawrth 2022.

Cefndir

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi a chyhoeddi Asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ei ardal ddim hwyrach na blwyddyn cyn iddo gyhoeddi ei Gynllun Llesiant Lleol. Mae'r Ddeddf yn nodi saith nod llesiant sy'n rhoi'r weledigaeth a'r uchelgeisiau ar gyfer y Gymru a Garem ar gyfer heddiw ac yn y dyfodol ac yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio rhwng cyrff i'w cyflawni.

Bydd yr Asesiad o Lesiant Lleol yn rhoi'r sylfaen dystiolaeth i bennu'r amcanion yn y Cynllun Llesiant Lleol 5 mlynedd. Mae'n ofynnol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus bennu'r amcanion hyn mewn ffordd sy'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, h.y., gweithredu mewn modd sy'n ceisio "sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain." Yng nghyd-destun yr amserlenni disgwyliedig cyfredol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol rhaid cyhoeddi'r asesiadau erbyn Mawrth 2022. Mae'r diagram isod yn dangos cylch cynllunio'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ffig 1. Cylch Cynllunio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)



Mae'r tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cytuno i fabwysiadu dull gweithredu tebyg o gynhyrchu'r asesiadau â'r tro diwethaf, trwy weithio mewn partneriaeth a mabwysiadu fframwaith methodoleg ar y cyd. Mae hyn yn cynnwys defnyddio'r dull gweithredu 'cyfnodau bywyd' yn yr asesiadau, gan dynnu sylw at wahaniaethau a thebygrwydd mewn profiadau o lesiant trwy gydol oes unigolyn. Mae yna bum cyfnod bywyd, sef Dechreuadau Newydd; Plentyndod; Ieuenctid; Oedolion o Oedran Gweithio; Oedolion Hŷn. Mae'r dull gweithredu hwn yn cyfateb i dystiolaeth bod ein llesiant personol yn newid dros amser.

Ffig 2. Y Dull Gweithredu Cyfnodau Bywyd a Fabwysiadwyd gan y tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus



Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn bartneriaethau o asiantaethau gwasanaethau cyhoeddus sy'n gweithio gyda'i gilydd i wella gwasanaethau lleol. Maent yn cynnwys aelodau statudol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydliadau eraill ar draws y bartneriaeth. Mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cytuno y bydd aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus/Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gweithio ar y cyd ar yr asesiadau i sicrhau eu bod yn cael eu siapio gan ddefnyddio arbenigedd, gwybodaeth a chraffter yr holl bartneriaid i osgoi dyblygu a rhannu adnoddau.

Bydd rhwydwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus/Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn arwain ar gyflawni'r fethodoleg ar y cyd, gyda chynrychiolwyr o sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ffurfio'r Grŵp Data, Ymgysylltu ac Ysgrifenyddwyr i gynhyrchu pob cam yr asesiad, er enghraifft, bydd arweinydd data'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn arwain ar y cam dadansoddi data. Ni fu gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol erioed yn bwysicach ar draws pob sector - gwaethygydd rhai o'r heriau a oedd yn bodoli eisoes yn rhanbarth canol a de-orllewin Cymru yn ddiweddar (e.e., poblogaeth sy'n heneiddio, anghydraddoldebau incwm, y newid yn yr hinsawdd ac ati), ac mae rhai newydd wedi cael eu dwyn i'r amlwg, fel anghydraddoldebau iechyd a digideiddio. Mae pandemig COVID-19 yn enghraifft dda o hyn.

Bydd yr ail rownd o asesiadau hefyd yn rhoi cyfle i ystyried canfyddiadau'r asesiadau diwethaf a'r adborth gan ddinasyddion, rhanddeiliaid, ac yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Defnyddir yr asesiadau olaf fel llinell sylfaen ar gyfer diweddarau a mireinio trwy adeiladu ar y dysgu o'r rownd gyntaf. Mae hyn yn cynnwys:

- Mwy o ffocws ar **ddadansoddi beirniadol a dehongli** data i lywio ein blaenoriaethau llesiant.
- **Adlewyrchu cyfyngiadau a bylchau data'r** asesiad a sut y gellir goresgyn y rhain.
- **Asesu'r llesiant ar lefel is** e.e., cymunedau ac ardaloedd yn ardal y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Ymgorffori "syniadau ar gyfer y dyfodol" trwy **ystyried anghenion hirdymor** yr ardaloedd yn ogystal â'r tymor byr.
- Sicrhau bod **rhaglen ymgysylltu helaeth** yn cael ei sefydlu a fydd yn sail i bob cam o ddatblygiad yr asesiadau.
- Dangos **cynnwys a chydweithio** wrth ddatblygu'r asesiadau gyda sefydliadau'r trydydd sector.

Bydd y fethodoleg yn egluro ein dull gweithredu ar y cyd o gynhyrchu Asesiadau o Lesiant Lleol o dan bedwar cam:

Ffig 3. Y Pedwar Cam i gyflawni'r Asesiadau o Lesiant Lleol



Y Fethodoleg

Adolygiad Data



Y cam cychwynnol wrth gynhyrchu'r Asesiad o Lesiant Lleol yw'r adolygiad data, sy'n ymarfer casglu a dadansoddi data cynhwysfawr o'r dystiolaeth bresennol. Ymgymerir â'r cam hwn mewn partneriaeth agos ag aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydliadau perthnasol eraill ac yn aml cyfeirir ato fel y 'Dadansoddiad o'r Sefyllfa'.

Nod yr adolygiad data yw dadansoddi llesiant diwylliannol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol mewn ardal, er mwyn meithrin dealltwriaeth o gyd-destun yr ardal, ei heriau a'r cyfleoedd sy'n bodoli. Trwy'r dull gweithredu hwn byddwn yn dechrau tynnu sylw at feysydd y mae angen i ni eu blaenoriaethu er mwyn mynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu nawr ac, yn y dyfodol, i wella llesiant tymor hwy pob sir. Byddwn yn cyflawni hyn trwy nodi:

- **Cryfderau ac asedau** ein pobl a'n cymunedau
- Yr **heriau a'r cyfleoedd** a wynebir nawr ac yn y dyfodol

Bydd yr asesiadau'n cael eu llywio gan amrywiaeth eang o ddata, ymchwil genedlaethol a lleol, ac adborth a roddir i ni gan bartneriaid, rhanddeiliaid a dinasyddion trwy ymgysylltu yn ystod haf 2021. I ddechrau cam yr adolygiad data, bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus/Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn dod at ei gilydd fel dadansoddwyr ac ymchwilwyr data ar draws y tair ardal trwy'r cyfarfodydd Rhwydwaith misol, gyda'r nod cyffredinol o gasglu a dadansoddi tystiolaeth berthnasol.

Bydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn troi at yr ystod ganlynol o ffynonellau sydd ar gael ar gyfer cynnal yr adolygiad data, naill ai ar gael yn genedlaethol neu trwy ffynonellau lleol:

- Set Ddata Graidd a Chatalog Data o Data Cymru (*ar gael Mai 2021*)
- Briffiau Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ar Gydraddoldebau, Llesiant Diwylliannol ac Effaith Covid-19 a Brexit (*adroddiadau cychwynnol ar gael Mehefin 2021 ac adroddiad terfynol Awst 2021*)
- Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru (*adroddiad cychwynnol ar gael ym mis Mehefin 2021*)
- Asesiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru (*ar gael 2021*)
- Adroddiadau cenedlaethol a lleol Archwilio Cymru (*ar gael yn barhaus*)
- Data Lleol gan sefydliadau partner y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus trwy ymarfer ymgysylltu (*i'w gynnal Mai 2021*)

Er bod yr adolygiad data yn debygol o fod yn **feintiol** ei natur i raddau helaeth, megis defnyddio data cyfres amser a phatrymau gofodol, bydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd yn troi at dystiolaeth **ansoddol** sydd ar gael trwy bartneriaid a darparwyr gwasanaethau lleol. Byddwn yn ymgysylltu â phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gynnar yn y broses i nodi data lleol a ffynonellau dystiolaeth i lywio'r asesiad, sy'n debygol o fod yn gymysgedd ehangach o ddata meintiol ac ansoddol.

Fel y cymeradwywyd yng nghyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Chwefror 2021, rôl tri Phrif Gyngor Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro yw cydlynw'r broses o baratoi'r asesiadau. Dyma'r un dull gweithredu a fabwysiadwyd yn yr asesiadau blaenorol.

Fodd bynnag, mae gan bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill ran allweddol i'w chwarae wrth hwyluso eu cynhyrchiad, yn enwedig trwy roi dystiolaeth leol, cymryd rhan mewn ymgysylltu a monitro cynnydd y prosiect hyd at ei gwblhau. Bydd y dull cydweithredu hwn o gynhyrchu asesiadau rhwng partneriaid yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector ac eraill o ran darparu, dadansoddi a dehongli data.

Bydd angen i'r Asesiad o Lesiant Lleol gynnwys dadansoddiad o gyflwr llesiant ym mhob ardal gymunedol ac ar draws ardal y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei gyfanrwydd. Mae'r Canllawiau Statudol 'Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol' yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus nodi Ardaloedd Cymunedol daearyddol sy'n cynnwys ardal gyfan y bwrdd ar gyfer cynhyrchu'r Asesiadau o Lesiant Lleol. Mae'r canllawiau yn nodi pa feini prawf y ceir eu defnyddio i ddiffinio'r ardaloedd:

- Ymdrin yn gynhwysfawr â holl ardal y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus h.y., dylent fod yn ardaloedd cyffiniol ac yn annibynnol ar ei gilydd yn ardal y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Dylent nodi gwahaniaethau cymdeithasol a gwahaniaethau eraill gyda gwahaniaeth gofodol amlwg, megis patrymau amddifadedd, tlodi, anghydraddoldebau iechyd, neu sefyllfa'r Gymraeg.
- Dylent fod yn ddigon mawr i ddangos gwahaniaethau rhyngddynt a bod ag ymdeimlad o hunaniaeth ond nid mor fach â wardiau etholiadol.
- Dylent gyfateb i ffiniau Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is.

Yn rownd gyntaf yr Asesiadau cytunodd y tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddefnyddio Ardaloedd Allbwn Ystadegol Uwch y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer yr Ardaloedd Cymunedol. Amlygodd adborth fod y ddaearyddiaeth hon yn annigonol wrth asesu cyflwr llesiant ar lefel gymunedol. Bydd Rhwydwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus/Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ystyried buddion amrywiol opsiynau i bennu lefel y ddaearyddiaeth sy'n ofynnol ar gyfer yr Ardaloedd Cymunedol er mwyn caniatáu dadansoddiad mwy ystyrlon. Yn unol â'r canllawiau, sy'n gofyn am "ddadansoddiad o gyflwr llesiant ym *mhob* ardal gymunedol", byddwn yn cynhyrchu proffiliau cymunedol ar gyfer pob un o'r ardaloedd ac yn eu cynnwys fel atodiad i'r Asesiad.

Yn ystod y rownd gyntaf o Asesiadau, nododd adborth gan Lywodraeth Cymru themâu cyffredin i gryfhau'r dull gweithredu cyffredinol a gymerir. Y rhain oedd:

Tabl 1: Sut rydym yn bwriadu datrys y materion a godwyd gan Lywodraeth Cymru yn yr asesiadau

Mater	Datrysiad
• Nodi ardaloedd cymunedol mwy lleol a deall y materion yn y cymunedau hyn.	<i>Adolygu'r ardaloedd cymunedol lleol a fabwysiadwyd ym mhob asesiad.</i>
• Mwy o ffocws ar lesiant grwpiau unigol a/neu gymunedau ledled yr ardal.	<i>Cynhyrchu proffiliau ar gyfer yr ardaloedd cymunedol a fabwysiadwyd yn seiliedig ar dampled safonol.</i>
• Cysylltu/mapio'r dull gweithredu cyfnodau bywyd gyda'r nodau Llesiant.	<i>Dangos, trwy ddiagram, y cysylltiadau rhwng y pum cyfnod bywyd a'r Nodau Llesiant.</i>

Dadansoddi effaith Llesiant dros y tymor byr, tymor canolig a hirdymor.	<i>Y dadansoddiad data i edrych ar dueddiadau'r dyfodol, i gynnwys rhagfynegiadau o dueddiadau tebygol yn y dyfodol yn llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal.</i>
Nodi'r bylchau mewn tystiolaeth i ddeall yr hyn y gallai fod ei angen yn y tymor byr, tymor canolig a hirdymor.	<i>Bydd yr asesiad yn nodi unrhyw gyfyngiadau hysbys yn y dystiolaeth lle mae angen i ni wella ein gwybodaeth a goblygiadau hyn ar gyfer y dadansoddiad o'r ymateb.</i>
Datganiad ar sut yr ydym yn ymgymryd â'r broses.	<i>Bydd crynodeb y fethodoleg y cytunwyd arno yn cael ei gynnwys yn yr asesiad.</i>
Roedd gan y Dadansoddiad o'r Sefyllfa ormod o bwyslais ar waith Meintiol ac mae angen mwy ar yr Ansoddol.	<i>Bydd Grŵp Ysgrifenydd yn mynd i'r afael â'r cydbwysedd rhwng dadansoddiad meintiol ac ansoddol.</i>

Rydym yn ymwybodol o'r cyfyngiadau data sy'n gysylltiedig â chyflawni'r asesiadau o Lesiant Lleol. Mae'n debygol y bydd bylchau yn y casgliad data ar draws y tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn enwedig ar gyfer ystadegau ardaloedd bach. Ar ben hynny, mae'n bosibl y bydd maint sampl y data cynradd a gesglir ar gyfer yr Ardaloedd Cymunedol yn annigonol ac felly nid yn cynrychioli'r boblogaeth gyfan. Er mwyn sicrhau tryloywder a hygyrdd ymchwil, bydd yr asesiadau'n tynnu sylw at y cyfyngiadau a'r bylchau data hyn, a fydd yn ei dro yn nodi meysydd pwnc sy'n gofyn am wybodaeth bellach a mwy o gasglu data.

Dadansoddiad Manwl



Bydd yr Asesiad o Lesiant Lleol hefyd yn cynnwys math mwy manwl o ddadansoddiad i ddatblygu esboniadau ac archwilio achosion tueddiadau yn hytrach na disgrifio patrymau a thueddiadau. (Cyfeirir at hyn hefyd fel 'Dadansoddiad o'r Ymateb').


Mae Dadansoddiad o'r Ymateb yn fath mwy manwl o ddadansoddiad sy'n defnyddio tystiolaeth mewn ffordd fwy heriol a thrwy werthuso i archwilio'r ffactorau sy'n ysgogi neu'n achosi'r patrymau a'r tueddiadau a nodwyd yn y dadansoddiad o'r sefyllfa. Yn dilyn hynny, bydd hyn yn llywio'r broses o ddewis blaenoriaethau ar gyfer ardaloedd lleol gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a fydd yn ei dro yn llywio trafodaethau ynghylch cynnwys y Cynllun Llesiant Lleol.

Mae Dadansoddiad o'r Ymateb yn tueddu i beidio â bod â lle mor amlwg mewn Asesiadau o Lesiant Lleol o'i gymharu â'r Dadansoddiad o'r Sefyllfa, gan fod ei brif rôl mewn perthynas â'r Cynllun Llesiant Lleol. Fodd bynnag, lle mae tystiolaeth yn caniatáu, bydd yr asesiadau'n cynnwys Dadansoddiad o'r Ymateb. Er enghraifft, lle mae'r gwerthusiad presennol yn nodi a yw'r gwasanaethau presennol yn effeithiol, lle mae data'n rhoi dealltwriaeth fwy cynnil o faterion a lle mae'r dystiolaeth ehangach yn lân ar ba ddulliau gweithredu sy'n debygol o weithio. Fe'i defnyddir hefyd i nodi is-set o bynciau ar gyfer pob ardal y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'w dadansoddi'n fanylach ar gyfer paratodau'r Cynlluniau Llesiant.

Bydd pob sefydliad sy'n ymwneud â chynhyrchu'r asesiadau yn parhau i fod yn rhan o'r broses Cynlluniau Llesiant trwy nodi gweithredoedd ymatebol, trwy ei monitro a thrwy gyflawni'r Cynllun Llesiant dros y pum mlynedd nesaf.

Cynlluniwyd datblygiad y System Gwybodaeth Ddigidol, y disgwylir iddi fynd yn fyw ym mis Mehefin 2021, i gynorthwyo gyda chynhyrchu a monitro Llesiant ar draws ardaloedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd yn darparu ystorfa ganolog i holl aelodau, rhanddeiliaid a dinasyddion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyfrannu at gofnodi a dadansoddi parhaus tystiolaeth sy'n ymwneud â Llesiant, ac yn y pen draw gryfhau Asesiadau o Lesiant a Chynlluniau Llesiant yn y dyfodol. Mae hyn yn cyd-fynd â chynghor diweddar gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n awgrymu y dylid ystyried yr asesiadau yn fwy fel dogfen 'esblygol' i'w defnyddio pan fydd tystiolaeth newydd ar gael. Am y rhesymau hyn, bydd Rhwydwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus/Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn parhau i weithio ar ddatblygu'r asesiadau yn y flwyddyn i ddod.

Ffig 4. Rôl yr Adolygiad Data a'r Dadansoddiad Data yn yr Asesiad o Lesiant Lleol



Ymgysylltu ac Ymgynghori




Ymgysylltu yw'r ysgogydd allweddol ar gyfer yr Asesiad o Lesiant Lleol, gan ganiatáu i ni gofnodi ac ystyried barn ystod o bartneriaid, rhanddeiliaid a dinasyddion i gael dealltwriaeth wirioneddol adlewyrchol o anghenion pob ardal y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae cynnwys pobl a chymunedau yn effeithiol wrth wraidd gwella llesiant. Bydd ymgysylltu gwell yn arwain at fwy o ymrymuso unigolion a'r gymuned, a fydd yn creu mwy o ymdeimlad o falchder a pherchnogaeth yn ein hardaloedd ac yn caniatáu i ni adeiladu cyfalaf cymdeithasol.

I'r perwyl hwnnw, byddwn yn datblygu Cynllun Ymgysylltu manwl i roi dull gweithredu safonedig o ymgysylltu a bydd hwn ar waith ar ddechrau'r prosiect ym mis Mai 2021. Bydd y Cynllun yn amlinellu ein technegau ymgynghori ac ymgysylltu i'w defnyddio i gwblhau elfen hon yr asesiad a chynyddu mewnbwn i'r eithaf. Pwrpas y cam hwn yw sicrhau dealltwriaeth wirioneddol adlewyrchol ac ansoddol o anghenion yr ardal(oedd) a gweld pa wybodaeth a gasglwyd yn ystod y dadansoddiad o'r sefyllfa sy'n rhoi mesur cywir o lesiant.

Ffig. 5 Ymgysylltu ac Ymgynghori fel yr Ysgogydd Allweddol



Defnyddir ystod o dechnegau ymgysylltu i gynyddu cyrhaeddiad y gynulleidfa i'r eithaf ac i sicrhau bod ein hymgysylltiad yn hygyrch i bawb. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, Arolygon, Grwpiau Ffocws, digwyddiadau Rhanddeiliaid a gweithdai is-grwpiau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cynhaliwyd arolwg Llesiant yn llwyddiannus fel rhan o'r asesiadau diwethaf, a byddwn yn cynnal ymarfer tebyg y tro hwn, gan adeiladu ar y wybodaeth a gafwyd o'r blaen. Bydd yr Arolwg Llesiant ar-lein yn cael ei ddatblygu ar y cyd gan Gynghorau Sir Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro ac aelodau eraill y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd y Cyngor sy'n cynnal yn rhoi'r canlyniadau i bob sir, a fydd yn cael eu rhannu yn ôl man preswyl. Bydd dulliau ymgysylltu traddodiadol e.e., drwy'r post a ffôn hefyd yn cael eu defnyddio i sicrhau bod pawb yn cael cyfle i gymryd rhan. Bydd dulliau ymgysylltu eraill, megis grwpiau ffocws, digwyddiadau rhanddeiliaid a gweithdai is-grwpiau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn cael eu cytuno'n rhanbarthol ond yn cael eu cyflawni'n lleol.

Cyflwynodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol i baratoi a chyhoeddi asesiad o anghenion gofal a chymorth y boblogaeth. Mae'r tabl isod yn tynnu sylw at ofynion ymgysylltu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Tabl 2: Gofynion ymgysylltu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Pynciau	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
Grwpiau poblogaeth allweddol	Cymunedau yn yr ardal Cymunedau buddiant yn yr ardal Cynghorau tref a chymuned Grwpiau allweddol a awgrymwyd yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb (hefyd plant agored i niwed / plant difreintiedig, pobl ifanc a phobl ag anghenion gofal a chymorth)	Gofalwyr a phobl ag anghenion cymorth gan gynnwys plant a phobl ifanc. Anabledd corfforol Anabledd dysgu lechydd meddwl Pobl hŷn Dioddefwyr cam-drin domestig
Cyd-destun 'Llesiant'	Economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol	Unigolyn (gofalwyr a'r rhai ag anghenion cymorth)
Graddfa'r asesiad	Ardaloedd sirol a chymunedol	Rhanbarth (gyda dimensiwn sirol)

O ganlyniad i'r tebygrwydd rhwng y ddwy Ddeddf, lle bo hynny'n bosibl, bydd ymgysylltu yn alinio i fodloni'r ddau ofyniad, er enghraifft, gan gynnwys cwestiynau sy'n ymwneud â'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn yr Arolwg Llesiant ar-lein. Bydd hyn yn osgoi dyblygu gwaith a 'blinder ymgysylltu'. Byddwn yn ymgysylltu ag ystod eang o bobl o bob oed i adlewyrchu amrywiaeth y gymuned a cheisio barn y rhai a allai fod yn anodd eu cyrraedd:

- Dinasyddion
- Busnesau
- Grwpiau cymunedol
- Sefydliadau'r trydydd sector
- Partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Undebau Llafur
- Darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill

Fel rhan o'r Cynllun Ymgysylltu, cynhelir ymarfer mapio rhanddeiliaid yn lleol i ganfod y grwpiau o'r rhestr uchod yr ymgysylltir â hwy. Bydd y cyfnod ymgysylltu yn dod i ben yn ystod Haf 2021, ac yn dilyn hynny cynhelir dadansoddiad o'r canfyddiadau, gyda'r nod o gael ei gwblhau erbyn Hydref 2021.

Bydd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymgynghori ar yr asesiadau drafft gyda'r grwpiau a amlinellir uchod. Bydd y broses ymgynghori yn sicrhau bod unrhyw fylchau yn cael eu llenwi a bod yr holl grwpiau dan sylw yn fodlon â'r ffyrdd y mae llesiant yn cael ei gyflwyno. Bydd hyn yn digwydd rhwng Medi a Rhagfyr 2021, cyn ei chyhoeddi a chyflwynir copïau i Weinidogion Cymru, y

Comisiynydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru a phwyllgor trosolwg a chraffu awdurdodau lleol.

Er mwyn sicrhau bod yr Asesiadau'n cynnwys pawb, byddwn yn gweithio gyda sefydliadau a dinasyddion sy'n cynrychioli'r grwpiau hyn (e.e., pobl hŷn, pobl anabl, trigolion di-waith ac economaidd anweithgar) i gael gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau i gymryd rhan a sut y gellir goresgyn y rhain. Yn ogystal, mae rhwydwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus/Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn mynychu sesiynau hyfforddi a gynhelir gan Rwydwaith Cydgynhyrchu Cymru a fydd yn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn, gan hefyd roi'r cyfle i rannu arferion gorau ar ymgysylltu.

Ar hyn o bryd mae'r tri phrif gyngor yn rhoi *system ymgysylltu â'r gymuned* newydd ar brawf, y gellid ei defnyddio i reoli'r ymgysylltu a'r ymgynghori o ran yr Asesiad o Lesiant Lleol. Er bod y system wrthi ar brawf ar hyn o bryd, byddai'n rhoi ystod o nodweddion i wneud yr ymgysylltu yn fwy rhyngweithiol, rhoi sianeli ychwanegol a chynnal yr ymgysylltu a gwrthbwysu rhai o'r effeithiau y bydd pandemig Covid-19 yn eu cael ar y cyfnod ymgysylltu. Y gobaith yw y bydd y system ar gael i gefnogi'r cyfnod ymgysylltu yn ystod gwanwyn a haf 2021.

Mae pandemig Covid-19 yn gosod rhai heriau wrth ymgysylltu â phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, y cyhoedd a rhanddeiliaid oherwydd problemau o ran gallu a newidiadau i'r ffordd yr ymgysylltir. Bydd ymgysylltu ag lechyd Cyhoeddus Cymru ar yr asesiadau yn hanfodol oherwydd eu rôl allweddol wrth ddiogelu a gwella iechyd a llesiant ledled Cymru. Fodd bynnag, gallai hyn fod yn her oherwydd y pwysau ychwanegol a roddir ar y Bwrdd lechyd i weithio ar ymateb Covid-19. Ar ben hynny, mae'n debygol y bydd ymgysylltu ac ymgynghori ar yr asesiadau yn cael ei gyflawni ar-lein. O ganlyniad, bydd angen i ni sicrhau nad yw barn rhai grwpiau (e.e., y rhai sydd heb sgiliau digidol neu nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngwrdd) yn cael eu heithrio o'r broses ymgysylltu.

Asesiad Terfynol a'r Camau Nesaf



Mae elfen nesaf a therfynol proses yr asesiad yn cynnwys gwerthuso a dadansoddi canfyddiadau'r ymchwil a'r ymgysylltu i ddatblygu crynodeb o anghenion pob ardal y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. (Cyfeirir at hyn hefyd fel y 'Dadansoddiad Crynodol').

Bydd swyddogion yn dod ynghyd i ddehongli ac asesu'r canfyddiadau meintiol ac ansoddol i adeiladu darlun cynhwysfawr o lesiant i lywio'r Cynlluniau Llesiant Lleol nesaf. Bydd y dystiolaeth yn caniatáu i ni nodi a blaenoriaethu'r materion sydd bwysicaf yn lleol a dechrau ystyried sut y gellir mynd i'r afael â hwy. Bydd y cam hwn yn galluogi Byrddau Gwasanaethau

Cyhoeddus i ddatblygu crynodeb o anghenion ar gyfer eu hardal, ymateb y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac i benderfynu ar y dangosyddion y gellir eu defnyddio i fonitro'r anghenion hyn wrth symud ymlaen.

Yn benodol, bydd y Grŵp Ysgrifenyddwyr yn sicrhau bod yr asesiad:

- Yn nodi cymunedau sy'n cynnwys yr ardal(oedd).
- Yn asesu cyflwr Llesiant yn unigol (fesul cymuned).
- Yn asesu cyflwr Llesiant ar y cyd (ardal y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus).
- Yn cynnwys rhagfynegiadau tueddiadau'r dyfodol.
- Yn dangos y cysylltiadau â'r saith Nod Llesiant ac Egwyddor Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Pwrrpas craidd yr asesiadau yw rhoi'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Cynlluniau Llesiant Lleol.

Y Camau Nesaf

Ar ôl cyhoeddi'r Asesiadau o Lesiant Lleol, bydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn datblygu ac yn cyhoeddi eu Cynllun Llesiant Lleol cyn pen deuddeg mis ar ôl yr asesiad.

Ymhlith y ffactorau penodol i fynd i'r afael â nhw yn yr asesiad mae:

- Amlinellu sut mae'r canfyddiadau a'r heriau a nodwyd yn cyfrannu at, neu'n effeithio ar, y nodau llesiant cenedlaethol a'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
- Canolbwyntio ar gymunedau unigol ledled yr ardal gan ddefnyddio proffiliau ardal.
- Rhoi mwy o wybodaeth am ardaloedd a chymunedau penodol.
- Dadansoddiad penodol o ba heriau sy'n dymor byr, tymor canolig neu hirdymor, a sut mae'r rhain yn effeithio ar lesiant.
- Disgrifiad o'r trydydd sector a'i rôl mewn llesiant.
- Mae adran tueddiadau'r dyfodol yn rhoi disgrifiad generig o dueddiadau gyda dehongliad cyfyngedig.
- Sut mae unigolion a sefydliadau yn parhau i fod yn rhan o broses y Cynllun Llesiant a'r hyn y mae'r Cynllun yn bwriadu ei wneud.

Er mwyn cynorthwyo'r rheini sy'n cyfrannu cynnwys ac sy'n ysgrifennu'r ddogfen derfynol, bydd templed asesiad yn cael ei greu gyda'r nod o roi fformat a strwythur cyffredin ar gyfer dadansoddi themâu gan ddefnyddio'r dull gweithredu Cyfnodau Bywyd y cytunwyd arno.

Monitro a Chyflawni


Mae llinell amser fanwl wedi'i datblygu, yn amlinellu prif bethau'r asesiad y gellir eu cyflawni hyd at y dyddiad cyhoeddi ym mis Mawrth 2022 (gweler Atodiad 1). Bydd cynllun gweithredu prosiect hefyd yn cael ei ddatblygu, yn rhoi manylion yr hyn sydd angen ei wneud, erbyn pryd mae angen iddo gael ei wneud, pwy sydd angen cymryd rhan a'r adnoddau y bydd eu hangen. Bydd y cynllun gweithredu prosiect hwn yn cael ei adolygu, a bydd cynnydd yn cael ei fonitro yng nghyfarfodydd bob mis rhwydwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus/Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae cais am arian Grant Cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'i gyflwyno i recriwtio Cydlynnydd Rhanbarthol yr Asesiad o Lesiant, a fydd, os yw'n llwyddiannus, yn chwarae rhan hanfodol wrth gydlynw'r prosiectau, rhoi cefnogaeth ddadansoddol a sicrhau bod terfynau amser yn cael eu cyflawni.

Bydd gweithgorau penodol hefyd yn cael eu sefydlu i ddatblygu'r fethodoleg ar y cyd (Rhwydwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus/Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol), cynllun ymgysylltu (Grŵp Ymgysylltu) ac ysgrifennu asesiad (Grŵp Ysgrifenwyr). Bydd y gweithgorau'n cynnwys aelodau perthnasol o bob rhan o'r tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaid i ganiatáu rhannu gwybodaeth, adnoddau ac arferion gorau.

Bydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael gwybod am broses yr asesiad trwy ddiweddariadau rheolaidd i gyfarfodydd llawn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a bydd yn ofynnol iddynt wneud penderfyniadau allweddol i arwain y prosiect trwy gydol ei hyd.

Ffig 6. Strwythur y gweithgorau sy'n ymwneud â chynhyrchu'r Asesiad o Lesiant Lleol



Casgliad


I gloi, mae'r fethodoleg ar y cyd hon yn ganllaw ymarferol i'r tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, a Sir Benfro) ar gynnal yr Asesiadau o Lesiant Lleol. Mae cynhyrchu dadansoddiad cynhwysfawr a thrylwyr o lesiant yn hanfodol i; Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, dinasyddion a sefydliadau, gan y bydd gan yr asesiadau rôl allweddol wrth benderfynu ar y blaenoriaethau yn y Cynlluniau Llesiant Lleol dros y 5 mlynedd nesaf. Mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cytuno i gymryd dull cydweithredu i elwa ar fuddion gweithio mewn partneriaeth, helpu i leddfu pryderon o ran gallu wrth gyflawni'r asesiadau ac osgoi dyblygu gwaith. Bydd yr ailadroddiad hwn o'r asesiadau yn ystyried yr adborth, y wybodaeth a'r dystiolaeth a gafwyd o'r rownd ddiwethaf o asesiadau.

Mae'r fethodoleg hon yn nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio o dan y pedwar cam: adolygu data, dadansoddi manwl, ymgysylltu ac ymgynghori, ac asesiad terfynol a'r camau nesaf. Mae'r dull gweithredu cymysg yn defnyddio data ansoddol a meintiol o ystod o ffynonellau, a fydd yn ein galluogi i dybio rhesymau, deall ffactorau a nodi materion sydd bwysicaf yn lleol. Bydd yr asesiadau'n mabwysiadu dull gweithredu 'dan arweiniad ymgysylltu', gan ei fod yn ffynhonnell wybodaeth hanfodol i'r holl bartneriaid ddefnyddio, ysgogi newid a siapia gwasanaethau sy'n diwallu anghenion ein trigolion nawr ac yn y dyfodol.

Nodir y data a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â Covid-19 sy'n gysylltiedig â chyflawni'r Asesiadau o Lesiant Lleol, megis diffyg data lleol a heriau hygyrchedd. Ymdrinnir â'r heriau hyn trwy; rhwydwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus/Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gallu ychwanegol a chefnogaeth ddadansoddol gan Gydlynnydd Rhanbarthol yr Asesiad o Lesiant, a defnydd posibl o'r System Gwybodaeth Ddigidol. Ar ben hynny, rydym yn gobeithio cael mewnwleidiadau i oresgyn rhwystrau i gymryd rhan ac ymgysylltu'n effeithiol â chymunedau trwy ein cysylltiad gweithredol â Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru.

Llinell Amser

ASESIAD O LESIANT LLEOL



Co-production and involvement in PSBs

Mes Yn Dderw: Co-production acorns for public service oaks

The Co-production Network for Wales has secured 5 years of funding from the National Lottery Community Fund to work with Public Services Boards (PSBs) on their implementation of co-production and involvement, with an initial focus on well-being assessments.

We are an independent non-profit, and the leading organisation in Wales with specialist expertise in these areas. We support a cross-sector community of practice, and we offer training, advice and consultancy in both strategic and delivery organisations.

We know [there is a gap](#) between the aspirations of our (still young) devolved legislation in terms of involving citizens and communities in the co-production of public services, and the reality of implementation on the ground. We believe that only by getting enough co-production and involvement happening across our Welsh public services, will we achieve the scale of impact that is required for sustainable change.

"Public bodies should be embedding a culture of citizen and stakeholder involvement...This means having meaningful conversations with people in communities, finding out what matters to them, and reflecting their views before decisions are reached." ~ Future Generations Report, 2020



We propose to work hands-on with 3 PSBs (or clusters of PSBs in which collaborative relationships are well established), and build on the first round of well-being assessments to deepen your engagement and involvement practice. We will:

- **Work alongside your teams** to support practical implementation and develop their capabilities, capacity and confidence. We are not consultants who take the work away and do it *for* you, instead we work *with* you; through experiential learning and working on relevant and immediate issues, we shift behaviours and cultures.
- **Create the conditions for sustainable relationships** between organisations and with communities and citizens through an ongoing involvement infrastructure; relationships are fundamental to co-producing and operating in complexity, and contribute to the long-term sustainability of this work.
- **Develop meaningful engagement opportunities** including with seldom heard voices, that will lead to the involvement of communities in the co-production of local solutions, where both people and professionals leverage their strengths and resources to effect positive change.

Work will begin in June 2021 with a focus on the well-being assessments, and carry through planning and implementation. We are fortunate to have been granted funding that will enable us to support PSBs throughout the entire 5-year cycle, and through them affect the broader public services landscape in Wales.

Each of the 3 PSBs or clusters we work with will access **an average of one day (8 hours) per week** of consultancy, advice and support from our co-production consultants who bring to the table a broad range of skills and experience. You will have a primary team of two consultants, and the support of the rest of our co-production team as relevant and appropriate. With 50 days of collaborative support per year for 5 years, we can achieve a significant shift in practice and behaviours. Of course we will develop specific work plans and timings around your needs, but broadly speaking, we will work with you to:

- **Develop and deliver** the engagement and communications plan for your Well-being Assessments, utilising remote and in person approaches as applicable.
- **Consolidate relationships** of trust and continue to engage with local stakeholders and residents to shape the Well-being Plans that are informed by the assessments
- **Co-produce local responses** to the priorities identified in the Well-being Plans (through the continued involvement of communities, community-led organisations, statutory and third-sector partner organisations).
- **Build capability and confidence** with co-production, facilitation, and associated skills.

While we will be working hands-on with 3 PSBs or clusters, in order for all the other PSBs to also benefit from the programme **we will connect with the PSB network** and share findings, experiences and lessons learnt. This will also fit within the wider context of the Co-production Network's existing cross-sector community of practice. We are therefore looking to work with a range of 3 PSBs or clusters whose variety of contexts and learnings will benefit the greater number.



To let us know you're interested, email Rachel Wolfendale, programme manager, by close of play **Friday 7th May 2021** (rachel@copronet.wales). Please tell us:

1. Who you are, and which PSB (or cluster) you are writing on behalf of?
2. Which other members of the PSB (or cluster) have you discussed this opportunity with, and who is on board? Does anyone have any questions or concerns?
3. What are you already doing in terms of engagement and involvement? What has your approach been so far, specifically with regards to the Well-being Assessments?
4. What value would this programme add to your existing work, and how would it increase your impact?
5. Who would be part of the team we would be working directly with? Will they have capacity (of time, and of focus) to take on this work?
6. Is there buy-in and permission at senior leadership level to support and advance this work?
7. If you're a cluster, what are your arrangements and how well embedded are your collaborative practices?

We will get in touch to arrange meetings in the following week, so we can answer your questions and discuss this further. We will decide through these conversations which combination of 3 PSBs or clusters we will be working with, with a view to begin in early June.

We look forward to hearing from you.